



**Student Academic Reps
Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr**

**Cardiff University Students' Union
Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd**

Llawlyfr Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr 2019/20

Rhaglenni a Addysgir

**Home of the Student Voice
Cartref Llais Y Myfyrwyr**



**CARDIFF
UNIVERSITY
PRIFYSGOL
CAERDYDD**

**Cardiff University Students' Union
Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd**

Cynnwys

3. Cyflwyniad gan eich IL Addysg, IL Ôl-raddedig a IL Campws Parc y Mynydd Bychan
4. Cyflwyniad gan Amanda Coffey, Dirprwy Is-ganghellor ar gyfer Profiad Myfyrwyr a Safonau Academaidd
5. Eich Undeb Myfyrwyr
6. Tîm Llais y Myfyrwyr
7. Rôl Cynrychiolydd Academaidd
8. Rôl Cadeirydd a'r Ysgrifennydd Panel Staff Myfyrwyr
9. Gwobrwyo a Chydabyddiaeth
10. Paneli Staff Myfyrwyr (PSM)
11. Fforymau Coleg
12. Byrddau Astudio
13. Y Ddolen Adborth
14. Wythnos Siarad
15. Gwobrau Cyfoethogi Bywydau Myfyrwyr (GCBM)
16. Cyfleoedd Datblygu
17. Siarter y Myfyrwyr
20. Cyfeirio
22. Dyddiadau Allweddol
24. Egluro Termau!
28. Cysylltwch â'ch Swyddogion Sabothol

Home of the Student Voice
Cartref Llais Y Myfyrwyr

Tomos Evans, Eich IL Addysg

"Fel Cynrychiolydd Academaidd myfyrwyr mae gennych gyfle anhygoel i gael rhoi eich barn ar sut mae eich ysgol yn gweithredu ac yn gallu cynrychioli buddiannau academaidd myfyrwyr. Mae eich rôl ac adborth yn amhriiadwy i weithrediad y Brifysgol ac yn gallu cael effaith ar fywydau myfyrwyr. Llongyfarchiadau ar fod yn gynrychiolydd, rydych chi'n wych ac mae'r gwaith rydych chi'n ei wneud yn cael effaith anferthol ar fyfyrwyr, felly diolch! Alla i ddim aros i weithio gyda chi eleni!"



Nick Fox, Eich IL Ôl-raddedig

"Mae eich rôl chi fel cynrychiolydd academaidd yn rhan allweddol o hyrwyddo llais y myfyrwyr yn Undeb y Myfyrwyr ac yn y Brifysgol. Fel Undeb y Myfyrwyr, rydyn ni yma i'ch cefnogi chi a phob myfyriwr i gael eu clywed ar bob lefel yn y Brifysgol, felly peidiwch â thanbrisiu'r newid cadarnhaol y gallwch chi ei gyflawni drwy gydol y flwyddyn hon."



Shekina Ortom, Eich IL Y Mynydd Bychan

"Llongyfarchiadau am roi eich hunain ymlaen i fod yn Gynrychiolydd Myfyrwyr Academaidd. Byddwch chi'n parhau â'r rôl hanfodol o gynrychioli daliadau myfyrwyr yn Undeb y Myfyrwyr ac yn y Brifysgol. Mae eich swydd chi yn hanfodol i sicrhau fod lleisiau'r myfyrwyr yn cael eu clywed a bod gennych chi gyfle i gael effaith cadarnhaol ar brofiad y myfyrwyr."

Mae Undeb y Myfyrwyr yn cynnig yr holl gefnogaeth sydd ei angen arnoch chi drwy gydol y flwyddyn academaidd fel Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr a thu hwnt. Rydych chi'n wych ac edrychaf ymlaen at weithio gyda chi eleni. Mae croeso i chi gysylltu â fi ar Facebook a Thrydar neu anfon e-bost ataf."



Amanda Coffey, Dirprwy Is-ganghellor ar gyfer Profiad Myfyrwyr a Safonau Academaidd

"Mae Prifysgol Caerdydd yn falch iawn o'r bartneriaeth gref sydd ganddo â chorff y myfyrwyr. Mae gennym draddodiad hir o gynrychiolaeth myfyrwyr yn y Brifysgol, fel un o'r ffyrdd rydym yn gweithio gydag ac ar gyfer ein myfyrwyr.

Mae'r system gynrychiolaeth academaidd yn golygu y gall myfyrwyr o bob rhaglen ym mhob ysgol gael llais yn sut y gellir gwella eu haddysg a'u profiad myfyrwyr ehangach. Rydym am i'n myfyrwyr i gael y profiad gorau posibl pan fyddant ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae Cynrychiolwyr Myfyrwyr yn helpu i wneud yn siŵr bod gennym arweiniad cryf am bethau sydd yn gweithio'n dda a beth sydd angen ei wella.

Mae bod yn 'Gynrychiolydd' yn golygu bod gennych y cyfle i weithio ochr yn ochr gyda ac yn cynrychioli eich cyfoedion, yn ogystal â gwella eich sgiliau ac adeiladu eich cysylltiadau.

Croeso i'r tîm."



Eich Undeb Myfyrwyr



Mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn cael ei adnabod fel Undeb Myfyrwyr blaenllaw ac yn rhan annatod o Brifysgol Caerdydd. Rydyn ni'n anelu i fod wrth galon profiad myfyrwyr Caerdydd drwy weithio gyda phob myfyriwr i ehangu eu profiad yn brifysgol. Fel myfyriwr ym Mhrifysgol Caerdydd, rydych chi'n aelod awtomatig o Undeb y Myfyrwyr!

Ein pwrpas

- » Hyrwyddo buddiannau a lles myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn ystod eu hastudiaethau drwy gynrychioli, cefnogi a chynghori myfyrwyr
- » Cael ein cydnabod fel y sianel gynrychioladol rhwng myfyrwyr, Prifysgol Caerdydd ac unrhyw gyrff allanol eraill.
- » Darparu gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol, athletaidd, hamddenol yn ogystal â fforymau i gael trafodaethau a dadleuon ar gyfer datblygiad personol myfyrwyr.

Mae gennym 4 thema strategol

1. Calon bywyd myfyrwyr
2. Cartref llais y myfyrwyr
3. Cyfleusterau a gwasanaethau sy'n arwain y sector
4. Ymgysylltu gyda'n cymunedau llai cysylltiedig

Rydyn ni hefyd yn hyrwyddo 4 o werthoedd

1. Myfyrwyr yn Arwain – chi yw arweinydd y myfyrwyr ac rydych yn cael eich cefnogi gan Undeb y Myfyrwyr; rydyn ni'n darparu hyfforddiant, cefnogaeth ac arweiniad.
2. Cynhwysiant – mae disgwyl i bob Cynrychiolydd Academaidd i ymgysylltu gyda phob myfyriwr y maen nhw'n ei gynrychioli.
3. Partneriaeth – mae'r Brifysgol, Undeb y Myfyrwyr a Chynrychiolwyr Academaidd oll yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau fod y profiad ym Mhrifysgol Caerdydd y gorau y gall fod i holl fyfyrwyr Caerdydd.
4. Amrywiaeth – Mae Cynrychiolwyr Academaidd yn hynod amrywiol ac yn gweithio gyda'i gilydd i ddiddymu rhwystrau at addysg.

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein rôl yn cynrychioli buddiannau academaidd myfyrwyr ar lefel ysgol, coleg a'r Brifysgol drwy ein cynllun strategol. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r Brifysgol i gefnogi a grymuso myfyrwyr i leisio'u barn.

Mae Undeb y Myfyrwyr yn anelu at fynd a daliadau myfyrwyr i'r llefydd cywir drwy ddarparu cyfleoedd i fyfyrwyr i drafod, rhoi syniadau ac i weithredu newid.

Mae Undeb y Myfyrwyr yn cael ei arwain gan saith Swyddog Sabothol a etholwyd gennych chi, y myfyrwyr; felly cadwch olwg am yr etholiadau a chymerwch ran drwy naill ai ymgeisio am rôl Swyddog neu bleidleisio dros eich hoff ymgeiswyr. Mae eich Undeb y Myfyrwyr hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Brifysgol i sicrhau eich bod chi'n cael eich cynrychioli ar bob lefel. Mae Tîm Llais y Myfyrwyr yn rheoli strwythur y Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr; ac yn gweithio mewn partneriaeth â'r Brifysgol i sicrhau ei fod mor effeithiol â phosibl. Gallwch wneud gwahaniaeth ar sut y rhedir eich Undeb Myfyrwyr drwy bleidleisio yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol (CCB) sy'n digwydd yn ystod semester yr Hydref.

Tîm Llais y Myfyrwyr

Llongyfarchiadau ar fod yn Gynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr! Mae Undeb y Myfyrwyr yn gartref i lais y myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd ac rydyn ni yma i'ch cefnogi chi a'ch buddiannau academaidd. Ers 2014, mae Tîm Llais y Myfyrwyr yn Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd wedi rheoli strwythur Cynrychiolaeth Academaidd Myfyrwyr. Mae ein tîm yn bodoli er mwyn recriwtio, cefnogi a gwobrwyo cynrychiolwyr academaidd ar draws y Brifysgol.

Fel tîm, rydyn ni'n ymdrin ag ystod eang o feysydd gan gynnwys cynrychiolaeth academaidd, democratiaeth, polisi ac ymgynghoedd. Rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth â Prifysgol Caerdydd i hyrwyddo lais y myfyrwyr ar bob lefel a rhoir cyfle i fyfyrwyr i gyd-greu eu profiad prifysgol.

Ers mis Hydref 2018, mae Llais y Myfyrwyr wedi ymroi Cydlynnydd Llais Myfyrwyr i bob un o'r tri coleg ym Mhrifysgol Caerdydd: Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol (AHSS) Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd (BLS) a Gwyddorau Ffisegol a Pheirianeg (PSE). Mae'r strwythur newydd wedi ei gynllunio i roi cefnogaeth cyngor a mewnwelediad arbenigol er mwyn i chi wneud y mwyafrif o'ch rôl fel Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr.

Rydyn ni'n creu'r hyfforddiant a ddarperir i chi fel Cynrychiolydd, bob blwyddyn rydyn ni'n ail ymweld â ac yn diwygio'r hyfforddiant yn seiliedig ar eich adborth. Drwy gydol y flwyddyn, byddwch yn derbyn cylchlythyr gennym unwaith y mis yn tanlinellu gwybodaeth allweddol a digwyddiadau sy'n bwysig i chi. Dywedwch wrthym ni beth rydych chi'n ei wneud fel y gallwn eich cynnwys chi yn ein cylchlythyr neu yn ein hymgyrch Llwyddiannau Myfyrwyr!

Rydyn ni wedi ein lleoli ar 3ydd llawr Undeb y Myfyrwyr ar Barc y Plas, ac yn y Lolfa IV ym Mharc y Mynydd Bychan, felly dewch i'n gweld ni unrhyw bryd! Rydyn ni eisiau clywed gennych, unrhyw bryd y bydd angen cymorth arnoch chi, neu unrhyw syniadau gwych sydd gennych chi. Gallwch alw heibio, neu gysylltu â Chydlynnydd Llais y Myfyrwyr eich coleg gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod:

Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol:

✉ studentreps@caerdydd.ac.uk

☎ 02920 781 434

♥ cardiffstudents.com/reps

🐦 Cyffredinol: @cu_studentvoice

🐦 Mynydd Bychan: @StudentVoice_HP

Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd:

✉ studentreps@caerdydd.ac.uk

☎ 029 2078 1448 (Cathays)

029 2087 4136 (Parc y Mynydd Bychan)

Gwyddorau Ffisegol a Pheirianeg:

✉ studentreps@caerdydd.ac.uk

☎ 02920 781 423



Rôl Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr



Amcan y rôl:

I gynrychioli daliadau myfyrwyr a gweithredu fel llais ar eu cyfer ar faterion academaidd a materion ymwneud â'ch cwrs, a rhannu syniadau arferion gorau.

Cyfrifoldebau:

- » Mynychu Hyfforddiant Cynrychiolwyr
- » Mynychu Paneli Staff-Myfyrwyr (PSM)
- » Gwneud eich hun yn hysbys ac ar gael i'r myfyrwyr rydych yn eu cynrychioli.
- » Casglu adborth cadarnhaol ac adeiladol gan eich cyfoedion i rannu gydag eich ysgol a choleg.
- » Cyfeirio myfyrwyr tuag at wybodaeth ar wasanaethau pwysig defnyddiol a ddarperir gan Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol
- » Rhoi adborth i fyfyrwyr am yr effaith y mae llais myfyrwyr wedi'i gael a sut mae hyn wedi arwain at welliannau yn eich ysgol.
- » Gweithio gyda'ch Cydlynnydd Academaidd Myfyrwyr ar ymgyrchoedd
- » Casglu adborth drwy'r Wythnos Siarad
- » Hyrwyddo'r Gwobrau Cyfoethogi Bywydau Myfyrwyr



Peidiwch ag anghofio i wirio Dyddiadau Allweddol ar dudalen 22!

Rôl y Cadeirydd

Amcan y rôl:

Cadeirio cyfarfodydd Paneli Staff Myfyrwyr a bod yn brif bwynt cyswllt yn eich ysgol, ar gyfer eich Tîm Llais Myfyrwyr; ac eich Cydlynnydd Cynrychiolydd Myfyrwyr yn ymwneud â syniadau neu faterion sy'n codi ymysg eich cyd-fyfyrwyr.

Cyfrifoldebau:

- » Mynychu Hyfforddiant Cadeirydd
- » Cadeirio Paneli Staff Myfyrwyr
- » Gweithio agos gyda'ch Cydlynnydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr (CCM)
- » Gweithio mewn partneriaeth ag Ysgrifennydd eich PSM

- » Hyrwyddo ymddygiad proffesiynol yn y Paneli Staff Myfyrwyr
- » Penodi gweithredoedd yn y Panel Staff Myfyrwyr
- » Gosod dyddiad eich PSM, yr agenda, a gwirio'r munudau gyda'r Ysgrifennydd a chefnogaeth gan CCM.
- » Gwahodd aelodau staff perthnasol i PSM neu weithio gyda'ch CCM i wahodd eraill.
- » Mynd i Fforymau Colegau a mynd i Fforymau Gradd Meistr os ydych chi'n CAM i Ôlraddedigion a addysgir.
- » Adrodd yn ôl i'r PSM a'r garfan ehangach wedi pob Fforwm

Rôl yr Ysgrifennydd

Amcan y rôl:

I weithio mewn partneriaeth gyda Chadeirydd y Panel Staff Myfyrwyr; cymryd cofnodion, penodi gweithredoedd mewn cyfarfodydd, a bod yn gyswllt allweddol yn eich ysgol ar gyfer Tîm Llais y Myfyrwyr ac eich Cydlynnydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr.

Cyfrifoldebau:

- » Mynychu Hyfforddiant Ysgrifenyddion
- » Cymryd cofnodion yn y PSM
- » Penodi Gweithredoedd yn y PSM
- » Cadw at amser yn y PSM
- » Gweithio'n agos gyda'ch Cydlynnydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr (CCM)
- » Gweithio mewn partneriaeth gyda

Chadeirydd eich PSM

- » Hyrwyddo ymddygiad proffesiynol yn y PSM
- » Gosod dyddiad eich PSM, yr agenda, a gwirio'r munudau gyda'r Cadeirydd a chefnogaeth gan CCM
- » Gwahodd aelodau staff perthnasol i'r PSM neu weithio gyda'ch CCM i wahodd eraill.
- » Mynd i Fforymau Colegau ac os ydych chi'n Gynrychiolydd Academaidd Ôlraddedig a addysgir mynd i Fforymau Gradd Meistr os nad yw'r Cadeirydd yn gallu mynd.
- » Sicrhau bod eitem agenda rheolaidd yn rhoi'r cyfle i roi adborth ar Fforymau'r Coleg

Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth

Fe fydd ymgymryd â'r rôl o Gynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr, nid yn unig yn helpu i siapia'r profiad y Brifysgol i bob myfyriwr ond hefyd o fantais i'ch CV a datblygiad personol drwy eich darparu chi gyda sgiliau cyflogadwydd cydnabyddedig. Mae tri gwahanol lefel o achrediad am fod yn Gynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr:



Tystysgrif Efydd

- » Mynd i sesiwn hyfforddiant neu drefnu sgwrs gydag aelod o'r Tîm Llais y Myfyrwyr
 - » Mynd i leiafswm o 2 gyfarfod Panel Staff Myfyrwyr
 - » Cwblhau arolwg adborth ddiwedd blwyddyn ar gyfer Cynrychiolwyr Academaidd
- Sgiliau a ddatblygwyd: Cyfathrebu, sgiliau cyflwyno a myfyrio*



Tystysgrif Arian

- » Yr holl lefel Efydd wedi ei gwblhau
- » Mynd i'r CCB
- » Gwirfoddoli yn ystod yr Wythnos Siarad
- » Mynd i Gynhadledd Cynrychiolwyr Academaidd yr Hydref neu'r Gwanwyn
- » Cyflwyno enwebiad GCBM

Sgiliau a ddatblygwyd: Gwneud penderfyniadau, proffesiynoldeb, a datrys problemau



Tystysgrif Aur

- » Cwblhau lefel Efydd ac Arian i gyd.
- » Tystiolaeth o ymgysylltu â lleiafswm o ddau gyfle datblygiadol (gweler t.17)
- » Tystiolaeth o ymgysylltu gyda chymdeithas sy'n seiliedig ar eich cwrs (os oes gennych chi un)
- » Derbyn enwebiad GCBM gan eich cyfoedion neu aelod o staff

Sgiliau a ddatblygwyd: Arwain, gwaith tîm, siarad cyhoeddus a datblygiad personol

Gallwch ddatblygu'r sgiliau hyn i gyd drwy fynychu sesiynau'r Gwasanaeth Datblygu Sgiliau, ar Ail Lawr Undeb y Myfyrwyr, Plas y Parc. Mae gennych fynediad at amrywiaeth o gyrsiau a diplomau wedi eu hardystio yn fewnol ac allanol gan gynnwys; sgiliau cyflwyno, negodi, briffio tîm a mwyr. Cysylltwch â'r tîm Datblygu Sgiliau ar SDS@caerdydd.ac.uk

Gallwch hefyd gofnodi eich holl oriau gwirfoddoli fel Cynrychiolydd gyda Gwirfoddoli Caerdydd er mwyn cael gwobr gwirfoddoli. Ewch i'w swyddfeydd ar 2il lawr Undeb y Myfyrwyr neu cysylltwch â nhw ar Volunteering@caerdydd.ac.uk



Skills Development Service
Gwasanaeth Datblygu Sgiliau

Cardiff University Students' Union
Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd



Cardiff Volunteering
Gwirfoddoli Caerdydd

Cardiff University Students' Union
Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd

Paneli Staff Myfyrwyr

Mae Paneli Staff Myfyrwyr (PSM) yn gyfarfodydd lle mae Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr a staff o fewn eich Ysgol yn bresennol. Pwrpas y cyfarfodydd hyn yw siarad ynglyn a syniadau a meysydd i wella ar eich cwrs a'r profiad addysgiadol yn gyffredinol. Mae disgwyl i chi fynychu'r cyfarfodydd hyn gydag adborth gan eich cydfyfyrwyr. Bydd dau gynrychiolydd (Cadeirydd ac Ysgrifennydd) yn gyfrifol am gadeirio'r cyfarfod a chymryd cofnodion.

Beth gallaf i ei ddisgwyl o Banel Staff Myfyrwyr?

Bydd agenda a chofnodion o'r cyfarfod blaenorol yn cael eu cylchedu cyn y PSM. Sicrhewch eich bod chi wedi paratoi ar gyfer yr eitemau ar yr agenda. Mewn cyfarfodydd dilynol maen bwysig eich bod yn gwirio'r pwyntiau gweithredu, efallai bydd y Cadeirydd neu'r Ysgrifennydd yn gofyn i chi wneud rhywbeth ar gyfer y PSM nesaf.

Pwy fydd yno?

Aelodaeth myfyrwyr:

- » Cadeirydd ac Ysgrifennydd Etholedig
- » Cynrychiolwyr Academaidd
- » Aelod pwyllgor o gymdeithas academaidd berthnasol (lle bo'n berthnasol)

Aelodaeth staff:

- » Cydlynnydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr
- » Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu
- » Arweinwyr modiwl a enwebwyd
- » Llyfrgellydd Pwnc
- » Rheolwr Addysg a Myfyrwyr neu gyfwerth

Maen werth nodi os oes mater penodol yr hoffech gyfeirio ato yn y cyfarfod, maen bwysig i roi gwybod i Gadeirydd y Cydlynnydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr o flaenllaw i wahodd yr aelodau staff perthnasol. Yn aml bydd aelod o staff TG a llyfrgellydd pwnc yn bresennol.

Pa mor aml y cynhelir y PSM?

Bydd eich PSM yn cwrdd o leiaf 3 gwaith y flwyddyn. Fel gofyniad eich rôl, dylech fynd i bob cyfarfod neu anfon ymddiheuriadau ac adborth drwy Gadeirydd y PSM os nad ydych chi'n gallu bod yn bresennol. Mae gan rhai ysgolion fwy na 3 PSM yn ystod y flwyddyn, mae mynd yn fynych drwy'r flwyddyn gyfan yn allweddol er mwyn sicrhau bod gweithredoedd yn cael eu gweithredu.

Oes gennych chi syniad neu problem cyn eich PSM?

Ni all rhai materion aros hyd nes y Panel Staff Myfyrwyr. Os oes mater brys maen werth ei godi gydag aelod o staff cyn y cyfarfod. Os oes angen cymorth arnoch i wneud hynny, cysylltwch â StudentReps@Caerdydd.ac.uk.



Dyma rai o brofiadau gan wahanol Baneli Staff Myfyrwyr ar draws y Brifysgol:

Rachel Beaney

Cynrychiolydd Ôl-raddedigion Ymchwil, MLANG, Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol

“ Mae Paneli Staff Myfyrwyr yn darparu sianel ffurfiol ar gyfer Ôl-raddedigion Ymchwil Cynrychioladol a Myfyrwyr Ôl-raddedig Ymchwil i gwrdd â Chyfarwyddwyr Ôl-raddedigion Ymchwil a Gweinyddwr Ôl-raddedig Ymchwil i drafod materion sy'n ymwneud â'u profiad addysgiadol. Maent hefyd yn gyfle i'r Ysgol ymgynghori â myfyrwyr a chael adborth ar gynigion newydd. Fel cynrychiolwyr, rydyn ni'n trefnu 2 gyfarfod bob blwyddyn yn MLANG. Rydyn ni'n anfon gwahoddiadau calendr fel bod pawb yn ymwybodol o'r cyfarfodydd. Rydyn ni'n gofyn am adborth o flaenllaw a hefyd yn darparu pwynt trafod cyffredinol ar adborth yn y cyfarfodydd. Rydyn ni'n cynnig cyfle i ddsygwyr o bell i gysylltu â ni drwy Skype. Mae un cynrychiolydd yn cadeirio tra maer llall yn cymryd cofnodion. Rydyn ni'n gwahodd y gweinyddwr a'r Deoniaid Astudiaethau Ôl-raddedig i ymuno hanner ffordd drwy'r cyfarfod ar gyfer yr ail awr. Mae hyn fel y gallwn drafod sut i gyflwyno pwyntiau iddynt. Mae'r cyfarfodydd fel arfer yn drafodaethau llewyrchus ac yn gyfle i bawb gael dod at ei gilydd. Rydyn ni'n cylchedu'r cofnodion ychydig o wythnosau yn ddiweddarach. Mae'r Cynrychiolwyr a Chyfarwyddwyr Astudiaethau Ôl-raddedig yn defnyddio'r rhain i weithredu gweithredoedd.”

Nick Albert

Cynrychiolydd Israddedig, HCARE, Coleg Biofeddygol a Gwyddorau Bywyd

“ Drwy'r PSM rydyn ni wedi gweithio gydag arweinwyr rhaglenni i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i brofiadau dydd i ddydd y myfyrwyr. Mae cadeirio'r PSM yn ffordd wych o adeiladu sgiliau cyfathrebu, hyder a dealltwriaeth o'ch cwrs a'r brifysgol.”

Rhiannon Lunney

Cynrychiolydd Ôl-raddedig Ymchwil, PHYSX, Coleg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianeg

“ Mae cynrychiolwyr ÔR ac ÔRA yn mynd i'r PSM Ôl-raddedig i drafod materion sy'n berthnasol i fyfyrwyr ôl-raddedig yn unig. Mae o leiaf un cynrychiolydd o bob rhaglen ÔRA a chynrychiolydd ÔRY o bob un o'r themâu ymchwil ehangach i sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn cael eu cynrychioli. Mae'r Cyfarwyddwyr ÔRY ac ÔRA, Cydlynwyr y MSc, Gwasanaethau Llyfrgell a nifer o staff Gwasanaethau Proffesiynol yn bresennol yn y PSM Ôl-raddedig. Maent yn ymgymryd â rolau megis Swyddog Cefnogaeth Academaidd, Cyswilt Anableddau a Gweinyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr. Fel arfer cynhelir 5 PSM dros y flwyddyn, yn cynnwys dros yr Haf. Mae unrhyw agwedd o fywyd yn PHYSX yn agored i drafodaeth, o ofod swyddfa i anghenion hyfforddi, oriau dysgu i fynediad at adnoddau. Does dim disgwyl i chi fynd i bob cyfarfod, ond mae'n hynod o ddefnyddiol i drosglwyddo aborth ymlaen, hyd yn oed os nas ydych chi'n gallu bod yn bresennol.”

Fforymau Coleg

Os oes rhai materion sydd wedi codi yn y PSM nad ydynt yn gallu cael eu datrys o fewn yr ysgol, gellir codi'r rhain yn Fforwm y Coleg. Er enghraifft, materion yn ymwneud â thechnoleg gwybodaeth neu argraffyddion, llyfrgelloedd, ac ariwyo. Mae Fforwm y Coleg yn ffordd wych o gwrdd â Chynrychiolwyr eraill o fewn eich Coleg ac i rwydweithio gyda staff arall y Brifysgol.

Mae'r IL Addysg, Parc y Mynydd Bychan neu Myfyrwyr Ôl-raddedig yn cadeirio Fforymau'r Colegau. Gwahoddir Cadierydd bob PSM o fewn y Coleg, yn ogystal ag uwch staff colegau'r Brifysgol. Os nad yw'r Cadeirydd yn gallu mynychu, dylai'r ysgrifennydd neu gynrychiolydd myfyrwyr arall fynd yn eu lle. Isod ceir rhestr o bob ysgol o fewn bob coleg, ac aelodaeth Fforymau'r Coleg.

Coleg Celfyddydau, Y Dyniaethau ac Astudiaethau Cymdeithasol (AHSS):

- » Ysgol Busnes Caerdydd (CARBS)
- » Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth (ENCAP)
- » Daearyddiaeth a Chynllunio (GEOPL)
- » Hanes, Archaeoleg a Chrefydd (SHARE)
- » Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol (JOMEC)
- » Y Gyfraith a Gwleidyddiaeth (LAWPL)
- » Ieithoedd Modern (MLANG)
- » Cerddoriaeth (MUSIC)
- » Gwyddorau Cymdeithasol (SOCS)
- » Cymraeg (CYMRAEG)

Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Gwyddorau Bywyd (BLS):

- » Y Biowyddorau (BIOS)
- » Deintyddiaeth (DENTL)
- » Gwyddorau Gofal Iechyd (HCARE)
- » Meddygaeth (MEDIC)
- » Optometreg a Gwyddorau'r Golwg (OPTOM)
- » Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol (PHRM)
- » Seicoleg (PSYCH)

Coleg Gwyddorau Ffisegol a Pheirianeg (PSE):

- » Archeoleg (ARCH)
- » Cemeg (CHEMY)
- » Gwyddorau Cyfrifiadureg a Gwybodeg (COMSC)
- » Gwyddorau'r Ddaear a'r Môr (EARTH)
- » Peirianeg (ENGIN)
- » Mathemateg (MATHS)
- » Ffiseg a Seryddiaeth (PHYSX)

Mae aelodaeth y Fforymau Coleg yn cynnwys:

Cadeiryddion y Paneli Staff Myfyrwyr o bob ysgol o fewn y Coleg

Is-lywydd Addysg

Is-lywydd Parc y Mynydd Bychan (Fforwm Coleg Biowyddorau a Gwyddorau Bywyd yn unig)

Is-lywydd Myfyrwyr Ôl-raddedig

Dirprwy Is-Ganghellor Profiad Myfyrwyr a Safonau Academaidd

Deoniaid y Coleg (Israddedig ac Ôl-raddedig)

Rheolwr Addysg y Coleg

Y Tîm Ymgysylltu â Myfyrwyr

Cynrychiolydd Llyfrgelloedd


Cynrychiolydd TG

Cynrychiolydd Ariwyo Technolegydd Dysgu

Cynrychiolydd Cyngor i Ffyrwyr

Byrddau Astudio

Mae Byrddau Astudio yn gyfarfodydd ffurfiol a gynhelir gan eich Ysgol i 'sicrhau cydlynad bob mater academaidd a gweinyddol sy'n gysylltiedig â rhaglenni astudio a addysgir.' Mae Cadeirydd ac Ysgrifennydd y PSM yn cael eu gwahodd i'r Bwrdd Astudiaethau i gynrychioli'r myfyrwyr ac i roi trosolwg o'r PSM diweddaraf. Mae'r cyfarfodydd hyn yn trafod: meini prawf derbyn, dulliau asesu, cynnwys a'r cwricwlwm a llawer mwy. Mae'r rhain yn cael eu rheoli gan y Brifysgol ac yn cael eu harwain gan yr uwch staff yn eich ysgol.



Y Ddolen Adborth

Y 'ddolen adborth' yw'r broses lle rydych chi'n sicrhau fod y person a gyfrannodd adborth yn ymwybodol o unrhyw weithredoedd neu ganlyniadau yn seiliedig ar eu hadborth.

Gan ddefnyddio'r teitlau canlynol, lluniwch eich gweledigaeth bersonol o'r ddolen adborth. Gallwch ychwanegu rhanddeiliaid neu gamau ychwanegol os ydych chi'n dymuno!

Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr

Myfyrwyr

Fforymau Coleg

Panel Staff Myfyrwyr

Byrddau Astudio



Wythnos Siarad

Llwyddiannau Myfyrwyr

- » Dwy lyfrgell 24/7 ar y campws (amseroedd agor yn cynnwys gwyliau'r Nadolig a'r Pasg)
- » Polisi recordio darlithoedd ar draws y Brifysgol
- » Cyhoeddir amserlenni arholiadau bythefnos yn gynt
- » Cynyddu nifer o lyfrau y gellid eu benthg mewn llyfrgelloedd o 15 i 35
- » Grwpiau partneriaeth blyneddol rhwng Y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr.

Dim ond rhai o'r llwyddiannau anhygoel sydd wedi cael eu gwireddu o ganlyniad i ymgyrch Wythnos Siarad Undeb y Myfyrwyr yw'r rhain. Mae Undeb y Myfyrwyr wedi gweithio mewn partneriaeth gyda'r Brifysgol i wneud y newidiadau hyn. Mae'r Wythnos Siarad yn cael ei gynnal yn ystod wythnos gyntaf mis Chwefror bob blwyddyn, a phwrpas yr ymgyrch yw casglu adborth gan fyfyrwyr ar gardiau Wythnos Siarad. Mae eich adborth yn yr ymgyrch hwn yn ffurfio asgwrn cefn yr Argymhelliad Ysgrifenedig Myfyrwyr, adroddiad a gyflwynir i'r Brifysgol i wneud argymhellion i'r Brifysgol ar ffyrdd o wella profiad y myfyrwyr.

Yn 2019, fe gafwyd blwyddyn arall o dorri record a chasglwyd 3,813 o gardiau yn cynnwys 7,535 o sylwadau. Roedd yr ymgyrch yn hynod o lwyddiannus diolch i gymorth ein cynrychiolwyr academaidd, staff ysgolion, a gwirfoddolwyr eraill!

Mae'r Wythnos Siarad yn gyfle gwych i chi ymgysylltu â myfyrwyr eraill a darganfod pa newidiadau hoffent weld! Fe fyddwn yn

cysylltu â chi yn ystod yr amser gwirfoddoli ac yn rhedeg digwyddiad Wythnos Siarad yn eich ysgol.

Gallwch ddod o hyd i'r adroddiad Wythnos Siarad diweddaraf yma:
cardiffstudents.com/your-voice/speak-week

Oeddech chi'n gwybod?

Gall Llais y Myfyrwyr eich darparu chi gyda'r holl sylwadau rhydd o'r Wythnos Siarad ar gyfer eich ysgol fel y gallwch weithredu'r rhain fel rhan o'ch Panel Staff Myfyrwyr! E-bostiwch StudentReps@caerdydd.ac.uk am fwy o wybodaeth

Wythnos Siarad



Gwobrau Cyfoethogi Bywydau Myfyrwyr (GCBM)

Bob blwyddyn, mae Undeb y Myfyrwyr yn cynnal y Gwobrau Cyfoethogi Bywydau Myfyrwyr. Mae'r Gwobrau Cyfoethogi Bywydau Myfyrwyr (GCBM) yn ddathliad o fyfyrwyr a staff yn y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr. Fel Cynrychiolydd Academiaidd Myfyrwyr, gallwch gael eich enwebu a'i ennill o ganlyniad i'ch holl waith caled! Mae yna gategorïau wedi eu cadw yn benodol ar gyfer Cynrychiolwyr Academiaidd, eich Cydlynwyr Cynrychiolwyr Myfyrwyr, a gwobrau eraill yn cynnwys Arweinwyr mewn Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac Aelod o Staff Mwyaf Ysbrydoledig. Mae'n gyfle i gydnabod staff a myfyrwyr sydd wedi ehangu eich bywyd fel myfyriwr! Bydd enwebiadau yn agor yn Semester yr Hydref, ac os caiff eich enwebydd eu cynnwys ar y rhestr fer, gallwch fynd i'r noson wobrwyo tei du i'w cefnogi nhw!

Dyma beth oedd gan eich cynrychiolwyr academiaidd myfyrwyr y flwyddyn 2018/19 i'w ddweud am fod yn gynrychiolydd ac am ennill GCMB:

Chloe Rye

Myfyriwr Blwyddyn Olaf BSc Seicoleg ac yn Gadeirydd Panel Staff Myfyrwyr PSYCH:

“ Penderfynu bod yn gynrychiolydd myfyrwyr oedd un o'r penderfyniadau gorau nes i yn ystod fy ngradd. Helpodd y rôl i mi ennill hyder a sgiliau nad oeddwn i'n gwybod fod gen i! Galluogodd y datblygiad hwn i mi ennill lle ar gynllun graddedig fy mreuddwydion ac i gwblhau diploma mewn arweinyddiaeth broffesiynol drwy Undeb y Myfyrwyr. Ynghyd â gwella fy nghyflogadwyedd, galluogodd bod yn gynrychiolydd myfyrwyr i mi gael effaith gadarnhaol ar fy ysgol ac i ennill dealltwriaeth o'r gwaith caled sy'n mynd i mewn i gael y gorau allan o brofiad y myfyrwyr. Un o fy llwyddiannau mwyaf fel cynrychiolydd academiaidd, (a helpodd i mi ennill GCMB), oedd trefnu digwyddiad cymdeithasol a hyfforddiant ar gyfer holl gynrychiolwyr Seicoleg. Roedd y profiad hwn yn hynod o bleserus oherwydd (yn ogystal â llawer o bitsa) fe wnes i lawer o ffrindiau da ymysg y Cynrychiolwyr. Ar ben hynny, derbyniais lawer o gefnogaeth a mewnbwn creadigol gan Lais y Myfyrwyr wrth drefnu'r digwyddiad hwn – dydych chi byth heb gyngor na chymorth fel cynrychiolydd! Os ydych chi'n chwilio i wneud ffrindiau newydd a datblygu mewn sawl maes – bod yn gynrychiolydd academiaidd gw'r sialens berffaith i chi!”

Rhiannon Lunney

Myfyriwr Ôl-raddedig Ymchwil blwyddyn 1 PHYSX a Chadeirydd Panel Staff Myfyrwyr Ôl-raddedig PHYSX:

“ Rydw i wedi fy syfrdanu ac mae'n ffrind i gael derbyn GCMB eleni ar gyfer Cynrychiolydd Y Gwyddorau Ffisegol a Phieiranneg y flwyddyn, heb sôn am Gynrychiolydd y Flwyddyn gyfan! Fe ymunais â Phrifysgol Caerdydd ym mis Hydref 2018 a dewis i fod yn gynrychiolydd academiaidd, er na fues i yn gynrychiolydd erioed o'r blaen. Rydw i'n angerddol ynglŷn â chefnogi Cydraddoldeb, Amrywiaeth, a Chynhwysiant mewn unrhyw ffordd y gallaf ac mae bod yn gynrychiolydd academiaidd wedi rhoi'r gallu i mi greu newid ar lefel ysgol, coleg a phrifysgol. Mae wedi fy narparu gyda chysylltiadau na fyddwn i erioed wedi gallu eu cael heb fod yn gynrychiolydd, yn ogystal â chwrrd â phobl newydd y tu allan i fy adran – sy'n gallu bod yn anodd fel ÔRY! Mae cymryd rhan gyda phopeth o fformau Cynrychiolwyr ÔRY i arolygu fy nghyfoedion ar gyfer prosiect o fewn yr ysgol wedi bod yn hynod o werthfawr yn ei hun, ac mae'r wobwr yn coronio'r cwbl.”

Cyfleoedd Datblygu

Mae bod yn gynrychiolydd myfyrwyr yn rhoi sawl cyfle i chi ddatblygu fel cynrychiolydd, a'ch datblygiad personol. Fe fyddwn yn hysbysebu cyfleoedd datblygu drwy gydol y flwyddyn drwy ein cylchlythyr misol i gynrychiolwyr. Dyma rai o'r cyfleoedd datblygiadol sydd ar gael i chi:

- » **System Haenau Gwobrwyo a Chydnabod Cynrychiolwyr** – byddwch y cynrychiolydd gorau y gallwch chi drwy weithio tuag at wobrau efydd, arian ac aur.
- » **Gwasanaeth Datblygu Sgiliau** – fel arweinydd myfyrwyr, gallwch weithio tuag at ddiploma arweinyddiaeth gyda'r Gwasanaeth Datblygu Sgiliau. Defnyddiwch eich amser gwirfoddol fel cynrychiolydd, i gymryd rhan mewn modiwlau arwain a gallwch gael diploma arwain cydnabyddedig!
- » **Pwyllgorau Gweithredol Swyddogion Sabothol** – byddwch yn rhan o bwyllgorau gwaith yr IL Addysg, IL Parc y Mynydd Bychan neu IL Ôl-raddedig a gweithio gyda nhw i ymgysgu dros faterion a syniadau perthnasol.
- » **Cynhadledd Cynrychiolwyr yr Hydref** – rhwydweithio gyda chynrychiolwyr eraill ar draws y Brifysgol a datblygu sgiliau newydd i'ch cefnogi chi yn eich rôl a datblygiad personol.
- » **Prosiectau Partneriaeth** – gweithio gyda grwpiau wedi eu sefydlu rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr yn seiliedig ar adborth gan gorff y myfyrwyr. Gweithio gyda thim o staff y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr i weithio tuag at ehangu profiad y myfyrwyr. Mae prosiectau

yn y gorffennol wedi cynnwys ehangu llythrennedd asesiadau ac adborth myfyrwyr, gwella profiad y myfyrwyr ôl-raddedig, ehangu'r system tiwtora personol.

- » **Arloesi prosiect ysgol** – mae cynrychiolwyr blynyddoedd blaenorol wedi arwain eu sesiynau adeiladu tim a digwyddiadau cymdeithasol eu hunain ac wedi gweithio ar brosiectau yn seiliedig ar adborth myfyrwyr yn eu hysgol. Gallwch arloesi syniad gwyb sydd gennych chi hefyd! Galwch heibio i weld Llais y Myfyrwyr ar Swyddogion Sabothol am unrhyw help neu gymorth neu dywedwch wrthym ni sut aeth hi!



Cynhadledd Cynrychiolwyr

Siarter y Myfyrwyr

Mae Siarter Myfyrwyr yn diffinio rolau a chyfrifoldebau myfyrwyr; Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol. Mae Siarter yn esbonio beth allwch ddisgwyl gan y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr a beth sydd i'w ddisgwyl gennych chi.

Fel Cynrychiolydd Academiaidd Myfyrwyr, mae'n bwysig i chi wybod beth yw'r disgwyliadau hyn a beth all fyfyrwyr wneud os nad yw'r Brifysgol yn cyrraedd eich disgwyliadau.

Nid yw Siarter y Myfyrwyr yn uchelgeisiol; gallwch ddisgwyl yr holl wasanaethau wedi'u hamlinellu yn Siarter y Myfyrwyr. Cofiwch, mae disgwyliadau arnoch chi hefyd. Dylech bob amser geisio:

- » Codi materion yn gynnar a gofyn am gyngor os na chaiff y rhain eu datrys
- » Hysbysu'r Brifysgol yn brydlon o unrhyw newidiadau i'ch amgylchiadau
- » Rhannu eich pryderon os yw eich profiad yng Nghaerdydd yn cael ei effeithio arno gan ymddygiad cyd-fyfyrwyr a staff
- » Gofyn am gyngor yn syth os yw eich cynnydd academiaidd, neu unrhyw agwedd arall o'ch profiad yng Nghaerdydd, yn achosi pryder i chi



**Cardiff University Students' Union
Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd**

Llwyddiannau Myfyrwyr

**'Yn dilyn adborth gan y myfyrwyr yn ein
hysgol, rydyn ni wedi gofyn am wythnos
ddarllen yn ystod tymor yr Hydref ac yn falch
i gyhoeddi y bydd hyn yn cael ei weithredu yn
y flwyddyn academiaidd 2019/20.'**

- Cynrychiolwyr Panel Staff Myfyrwyr y Gyfraith

Cyfeirio

Fel cynrychiolydd academiaidd mae'n bwysig i fod yn ymwybodol o'r gwahanol wasanaethau ar draws y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr fel y gallwch gyfeirio myfyrwyr i'r cysylltiadau priodol pe byddent yn dod atoch gyda mater sy'n disgyn y tu allan i gasglu ac adrodd adborth.

Yn eich rôl fel cynrychiolydd academiaidd, does dim disgwyl i chi ddelio â:

- » Anghydfodau rhwng myfyrwyr a staff academiaidd (e.e. aflonyddu, gwahaniaethu)
- » Gweithdrefnau ffurfiol (e.e. methiannau arholiadau, apeliadau academiaidd, addasrwydd i weithio, amgylchiadau esgusodol)
- » Ariannol, cyllid, ymholiadau yn ymwneud ag arian
- » Problemau lles, iechyd a materion personol (e.e. tai, cyflogaeth a mewnfudo)

Os bydd myfyriwr yn rhannu problem gyda chi, a dydych chi'n ddim yn siŵr lle dylid eu cyfeirio nhw, cysylltwch â studentreps@caerdydd.ac.uk.

Isod mae rhai gwasanaethau allweddol a phobl i fod yn ymwybodol ohonynt:

Gwasanaethau Undeb y Myfyrwyr

Cyngor i Fyfyrwyr

Mae'r Ganolfan Cyngor i Fyfyrwyr yn rhoi cyngor a gwybodaeth annibynnol, eiriolaeth, cynrychiolaeth a chymorth drwy wasanaeth cyfrinachol, diduedd ac annibynnol sy'n rhad ac am ddim i aelodau Undeb y Myfyrwyr. Gallwch alw heibio; ewch i 3ydd llawr Undeb y Myfyrwyr i siarad â Chynghorydd Myfyrwyr; archebu apwyntiad, e-bostio neu ffonio'r tîm. Os bydd myfyriwr yn cysylltu â chi gydag unrhyw un o'r materion hyn, cyfeiriwch nhw at Gyngor i Fyfyrwyr:

- » Materion Academiaidd – apeliadau, cyngor ar ymddygiad myfyrwyr, newidiadau i'ch cwrs/telerau ac amodau, amgylchiadau esgusodol, adolygu yn ystod Ramadan, Cymorth Adolygu, Ymarfer Annheg, Addasrwydd i Weithio.
- » Iechyd a Lles – iechyd meddwl, iechyd rhywiol
- » Tai – gwirio contractau tai, anghydfod gyda landlordiaid, rhestrau tai ayb.

Angen Cyngor?

- » Campws Cathays: Mae ein sesiynau galw heibio Dydd Llun i Ddydd Gwener 11:00 – 13:00 and 14:00–16:00 yn ystod y tymor.
- » Gellir trefnu apwyntiadau rhwng 09:30 – 17:00
- » Campws y Mynydd Bychan: Cynhelir sesiynau galw heibio yn ystod y tymor Dydd Llun i Ddydd Gwener 12:00 – 14:00. Cysylltwch â Chyngor i Fyfyrwyr i archebu apwyntiad.

Er mwyn trefnu apwyntiad ffoniwch 029 2078 1410 neu llenwch y ffurflen ymholiad ar-lein: cardiffstudents.com/advice

 Advice@caerdydd.ac.uk

Gwasanaeth Datblygu Sgiliau

Os oes gennych chi neu gyd-fyfyrwr ddiddordeb mewn gwella neu ddatblygu unrhyw sgiliau yn ystod eich amser yn y brifysgol, lle gwych i'w hanfon nhw yw'r Gwasanaeth Datblygu Sgiliau (GDS) sydd ar ail lawr Undeb y Myfyrwyr. Maent yn darparu amrywiaeth o gyrsiâu a sesiynau hyfforddi wedi'u cynllunio i adeiladu hyder; gwella sgiliau trosglwyddadwy a chynyddu cyflogadwydd ar gyfer dysgwyr wrth iddynt baratoi ar gyfer eu dyfodol wedi iddynt raddio a chael y bonws o gael ardstiad hefyd. Mae mwyafrif o gyrsiâu am ddim ac yn ffordd wych o gwrdd â phobl newydd, a rhwydweithio mewn amgylchedd hwyl ac anffurfiol.

 SDS@caerdydd.ac.uk

Siopswyddi

Mae'r Siopswyddi yn wasanaeth cyflogaeth am ddim sy'n ceisio dod o hyd i waith achlysurol ar gyfer myfyrwyr Prifysgol Caerdydd cofrestredig. Mae cyfleoedd ar gael o fewn Undeb y Myfyrwyr; y Brifysgol a gyda chyflogwyr lleol. Maen nhw wedi eu lleoli ar 2il lawr adeilad Undeb y Myfyrwyr ar Blas y Parc, ac yn y Lofa IV ym Mharc y Mynydd Bychan.

✉ Jobshop@caerdydd.ac.uk

Gwasanaethau Prifysgol Caerdydd

Cefnogi a Lles Myfyrwyr

Mae gan Ganolfannau Cymorth Myfyrwyr amrywiaeth o wasanaethau wedi eu hymroi i helpu myfyrwyr; gellir cael apwyntiadau ac amseroedd galw heibio bob gwasanaethau drwy ffonio neu e-bostio Cefnogaeth i Fyfyrwyr.

✉ studentsupport@caerdydd.ac.uk
029 2087 4844

Cyngor ac Arian

Arweiniad ar faterion academiaidd, cyngor cyllido, sgiliau arian a chyllidau argyfwng a Bwrsariaethau ac Ysgoloriaethau. Wedi ein lleoli ar 3ydd llawr Undeb y Myfyrwyr ar Blas y Parc, rydyn ni'n cynnig gwasanaeth galw heibio ac mae apwyntiadau y gellir eu harchebu ar gael.

Gwasanaeth galw heibio ar gael Llun – Iau yn Nhŷ Ceredigion, Parc y Mynydd Bychan.

✉ Adviceandmoney@caerdydd.ac.uk

Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd

Cyngor gyrfaoedd, canllawiau a gwybodaeth, cyfleoedd profiad gwaith, datblygu sgiliau cyflogadwyedd, mynediad at gyfleoedd a digwyddiadau recriwtio i fyfyrwyr a graddedigion a chymorth ar gyfer dechrau Busnes neu Fenter. Wedi ei lleoli ar 51a Plas y Parc Gellir gwneud apwyntiadau dros y ffôn neu drwy archebu ar-lein drwy Gyfrif Gyrfaoedd.

Ar gael yng Nghanolfan Plas y Parc yn unig.

✉ Careers@caerdydd.ac.uk

Cwnsela, Iechyd a Lles

Cyngor a chymorth ymarferol ar gyfer iechyd a lles, ac maent yn cynnig apwyntiadau wyneb yn wyneb ac ar-lein, gwasanaeth galw heibio, gweithdai, adnoddau hunangymorth a gwasanaeth iechyd galwedigaethol. Wedi eu lleoli ar 50 Parc y Plas.

Apwyntiadau y gellid eu harchebu yn y Mynydd Bychan.

✉ wellbeingandcounselling@caerdydd.ac.uk

Gwasanaeth Anabledd a Dyslecsia

Cyngor ac arweiniad i fyfyrwyr anabl, ynghyd â gwasanaethau cymorth arbenigol a hwyluso hygyrchedd ac addasiadau gan gynnwys darpariaeth arholiad. Wedi ei lleoli ar 50 Plas y Parc, Gellir archebu apwyntiadau neu alw heibio.

Apwyntiadau y gellir eu harchebu ar gael ar Ddyddiau Iau a Gwener yn unig ym Mharc y Mynydd Bychan.

✉ Disability@caerdydd.ac.uk

Cymorth i Fyfyrwyr Rhyngwladol

Cefnogaeth ymarferol i fyfyrwyr rhyngwladol, a chymorth a chynghor ar estyniadau fisâu, canllawiau ar reoliadau cyflogaeth, cyngor ariannol a gwybodaeth ar fywyd bob dydd yn y DU. Wedi ein lleoli ar 3ydd llawr Undeb y Myfyrwyr

Ar gael yn Undeb y Myfyrwyr, Plas y Parc yn unig.

✉ ISS@caerdydd.ac.uk

Rhif cyswllt ar gyfer bob gwasanaeth

+44 (0)29 2251 8888 diwrnodau'r wythnos rhwng 9:00 –16:30 (ac eithrio Gwyliau Banc/Cyhoeddus) – Gwasgwch yr opsiwn rhifol sy'n perthyn i'r gwasanaeth sydd ei

Dyddiadau Allweddol:

Tymor yr Hydref

SGYRSIAU CYFLWYNIADOL:

Dydd Llun 2il Medi – Dydd Gwener
4ydd Hydref

ETHOLIADAU CYNRYCHIOLWYR:

Dydd Llun 23ain Medi – Dydd Sul 20fed
Hydref

HYFFORDDIANT CYNRYCHIOLWYR:

Dydd Llun 30ain Medi – Dydd Gwener
15fed Tachwedd

HYFFORDDIANT CADEIRYDDION AC YSGRIFENYDDION:

Dydd Llun 14eg Hydref – Dydd Gwener
8fed Tachwedd

CYNHADLEDD CYNRYCHIOLWYR:

Dydd Sadwrn 2il Tachwedd

ETHOLIADAU'R HYDREF UNDEB Y MYFYRWYR:

Dydd Llun 4ydd– Dydd Iau 7fed
Tachwedd

FFORWM COLEG Y CELFYDDYDAU, DYNIAETHAU A GWYDDORAU CYMDEITHASOL 1:

Dydd Mercher 20fed Tachwedd 2019 o 1yh

FFORWM COLEG Y BIEWYDDORAU A GWYDDORAU BYWYD 1:

Dydd Mercher 13eg Tachwedd 2019 o 2yh

FFORWM COLEG GWYDDORAU FFISEGOL A PHEIRIANNEG 1:

Dydd Mercher 20fed Tachwedd 2019 o 3yh

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL UNDEB Y MYFYRWYR:

Dydd Iau 21ain Tachwedd

DYDDIAD CAU COFNODION PSM:

Dydd Gwener 6ed Rhagfur

Semester y Gwanwyn

FFORWM GRADD MEISTR 1:

Thursday 31st January from 2pm

WYTHNOS SIARAD:

Dydd Llun 3ydd – Dydd Gwener 7fed
Chwefror

FFORWM COLEG Y CELFYDDYDAU, DYNIAETHAU A GWYDDORAU CYMDEITHASOL 2:

Dydd Iau 13eg Chwefror 2020 o 3yh

FFORWM COLEG Y GWYDDORAU BIOFEDDYGOL A BYWYD 2:

Dydd Mercher 12fed Chwefror 2020 o 2yh

FFORWM COLEG Y GWYDDORAU FFISEGOL A PHEIRIANNEG 2:

Dydd Mawrth 11eg Chwefror 2020 o 3yh

ETHOLIADAU'R GWANWYN UNDEB Y MYFYRWYR *(yn cynnwys Etholiadau Cynrychiolwyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20 a Nyrsys sy'n dechrau ym mis Mawrth 2019)*

Dydd Llun 2il – Dydd Gwener 6ed Mawrth

FFORWM COLEG Y CELFYDDYDAU, DYNIAETHAU A GWYDDORAU CYMDEITHASOL 3:

Dydd Iau 26ain Mawrth 2020 o 3yh

FFORWM COLEG Y GWYDDORAU BIOFEDDYGOL A BYWYD 3:

Dydd Mercher 25ain Mawrth 2020 o 3yh

FFORWM COLEG Y GWYDDORAU FFISEGOL A PHEIRIANNEG 3:

Dydd Mercher 25ain Mawrth 2020 o 1yh

COFNODION PSM *(Semester y Gwanwyn):* Dydd Gwener 27ain Mawrth


FFORWM GRADD MEISTR 2: Dydd Iau 4ydd Mehefin o 2yh

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL ANNUAL GENERAL MEETING

YN EICH
DWYLO CHI

COFIWCH DDOD
Â'CH CERDYN
MYFYRIWR

DADLAU A
PHENDERFYNU AR
GYFEIRIAD UNDEB Y
MYFYRWYR



17:30 DYDD IAU 21AIN TACHWEDD
Y NEUADD FAWR, LLAWR 1AF

Egluro Termau!

Byrddau Astudio

Mae cyfarfodydd ffurfiol yn dod a Phenaeithiaid Ysgol ag aelodau staff priodol ynghyd i drafod materion gweinyddol ac academiaidd sy'n ymwneud â rhaglenni a ddarperir o fewn yr Ysgol.

Swyddogion Ymgyrch

Grŵp o 10 myfyriwr sy'n cael eu hethol bob blwyddyn i gynrychioli grwpiau penodol. Mae'r rhain yn swyddi gwirfoddol, rhan amser a gymerir ochr yn ochr ag astudiaethau'r myfyrrwyr. Mae'r swyddi yn cynnwys: Swyddog Croenddu a Lleiafrifoedd Ethnig, Swyddog y Gymraeg, Swyddog Myfyrrwyr Hŷn, Swyddog Moesegol ac Amgylcheddol, Swyddog Myfyrrwyr ag Anableddau, Swyddog Iechyd Meddwl, Swyddog LHDT+ (Agored), Swyddog LHDT+ (Merched), Swyddog Merched a Swyddog Myfyrrwyr Rhyngwladol.

Undeb Myfyrrwyr Prifysgol Caerdydd (UMPC)

Sefydliad sy'n annibynnol o'r Brifysgol sy'n cynrychioli daliadau myfyrrwyr Prifysgol Caerdydd. Mae'r Undeb yn cynnig gwasanaethau cynrychiolaeth, gweithgareddau allgyrsiol, nosweithiau allan, triapiau diwrnod a gwaith rhan amser. Fel myfyriwr Prifysgol Caerdydd, rydych chi'n aelod awtomatig ac yn gallu defnyddio unrhyw wasanaeth sydd ar gael.

Fforymau Coleg

Bydd cyfarfodydd a drefnir gan Undeb y Myfyrrwyr sydd â Chadeiryddion y Panel Staff Myfyrrwyr yn bresennol o raglenni israddedigion, mae cynrychiolwyr y Brifysgol ac Undeb y Myfyrrwyr yn siarad am bryderon ar draws y coleg na all gael eu datrys ar lefel ysgol neu faterion sydd angen cael eu hysbysu i'r coleg.

Fforwm Gradd Meistr

Cyfarfodydd sy'n cael eu cadeirio gan yr Is-lywydd Myfyrrwyr Ôl-raddedig sy'n agored i unrhyw fyfyrwr Ôl-raddedig a addysgir i drafod amrywiaeth eang o faterion. Mae Deoniaid yr Astudiaethau Ôl-raddedig yn cael eu gwahodd i fynychu'r cyfarfodydd hyn i drafod materion y Coleg â'r Brifysgol.

Prosiectau Partneriaeth

Mae'r prosiectau hyn yn seiliedig ar adborth o Argymhelliad Ysgrifenedig Myfyrrwyr Undeb y Myfyrrwyr. Mae'r rhain yn cael eu gweithredu am flwyddyn mewn partneriaeth rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrrwyr. Dyma brosiectau academiaidd 2018-19: 'Taith Myfyrrwyr Rhyngwladol', 'Cefnogi Llythrennedd Asesiadau ac Adborth Myfyrrwyr', 'Ehangu'r System Tiwtora Personol', 'Cefnogaeth Academiaidd ar gyfer Dysgu' a 'Cyfathrebu yn effeithiol gydag ein Myfyrrwyr'.

Adolygiad Cyfnodol

Dadansoddiad eang o ysgolion academiaidd sydd yn digwydd bob pum mlynedd i sicrhau bod yr ysgol yn bodloni'r disgwyliadau a nodir yng nghod ansawdd y QAA.

Cynrychiolydd Ôl-raddedigion Ymchwil

Myfyriwr Ôl-raddedig Ymchwil gwirfoddol sy'n cynrychioli daliadau, cwestiynau a sylwadau eu cyd-fyfyrrwyr.

Fforymau Cynrychiolwyr Ôl-raddedig Ymchwil

Cyfarfodydd sy'n cael eu cadeirio gan Is-lywydd Myfyrrwyr Ôl-raddedig, maent yn agored i holl Gynrychiolwyr Ôl-raddedig Ymchwil ar draws y Brifysgol, lle trafodir materion ar lefel Ysgol, Coleg neu Brifysgol.

Swyddogion Sabothol

Grŵp o saith myfyriwr sy'n cael eu hethol bob blwyddyn i gynrychioli daliadau Myfyrrwyr Caerdydd. Mae'r swyddi hyn yn derbyn tâl ac wedi'u rhannu mewn i saith maes gwahanol: ceir Llywydd Undeb y Myfyrrwyr ac Is-lywydd ar gyfer Addysg, Lles, Myfyrrwyr Ôl-raddedig, Campws y Mynydd Bychan, Cymdeithasau a Gwirfoddoli, a Chwaraeon a Llywydd yr UA.

Cynrychiolydd Academaidd Myfyrrwyr (CAM)

Myfyriwr sy'n cynrychioli barn, cwestiynau a sylwadau eu cyd-fyfyrrwyr. Gall Gynrychiolwyr Academaidd Myfyrrwyr hefyd gael ei hadnabod fel 'CAM', 'Cynrychiolwyr Academaidd', 'Cynrychiolwyr Myfyrrwyr', 'Cynrychiolwyr' neu 'Gynrychiolwyr Ôl-raddedigion Ymchwil' os ydynt yn rhan o'r gymuned Ôl-raddedig Ymchwil.

Cyngor i Fyfyrrwyr

Gwasanaeth cyngori annibynnol wedi eu lleoli yn Undeb y Myfyrrwyr, ar gael i holl fyfyrrwyr Prifysgol Caerdydd. Mae'r tîm yn darparu arweiniad ar faterion academaidd, cwynion cwsmer, tai a mwy.

Cydllynydd Cynrychiolwyr Myfyrrwyr

Aelod o staff o'ch ysgol sy'n hwylyso recriwtio ac ymsefydlu cynrychiolwyr myfyrrwyr, darparu cefnogaeth weinyddol ar gyfer cyfarfodydd ac yn gweithio'n agos gydag Undeb y Myfyrrwyr i sicrhau cynrychiolaeth a chyfleoedd ar gyfer myfyrrwyr.

Cefnogaeth i Fyfyrrwyr

Gwasanaeth a redir gan y Brifysgol sydd wedi'i leoli yn 50 Plas y Parc, Undeb y Myfyrrwyr, Parc y Mynydd Bychan ac sy'n cynnig cronfeydd caledi, cyngor cyffredinol, cefnogaeth ryngwladol a gwasanaethau cwnsela.

Panelli Staff Myfyrrwyr (PSM)

Cyfarfodydd sy'n dod â Chynrychiolwyr Academaidd Myfyrrwyr a staff yr Ysgol ynghyd i drafod materion sy'n effeithio poblogaeth y myfyrrwyr ar lefel lleol. Mae disgwyl i chi fynychu'r cyfarfodydd hyn yn eich rôl.

Tîm Llais y Myfyrrwyr

Y tîm sy'n darparu eich hyfforddiant, cefnogaeth ac yn darparu cyngor penodol ar eich rôl. Gallwch gysylltu â'r tîm os oes gennych unrhyw awgrymiadau neu gwynion gyda strwythur y Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrrwyr.

Oes gennych chi mwy o gwestiynau? Edrychwch ar ein cwestiynau cyffredin ar ein gwefan yma cardiffstudents.com/your-voice neu gysylltu â StudentReps@Caerdydd.ac.uk

**RYDYN NI EISIAU
CLYWED EICH
SYNIADAU
ANHYSGOEL AR BETH
DDYLAI UNDEB Y
MYFYRWYR FOD YN
EI WNEUD!**

SENEDD MYFYRWYR

**Cardiff University Students' Union
Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd**

**CYFLWYNWCH EICH SYNIADAU AR
[CARDIFFSTUDENTS.COM/IDEAS](https://cardiffstudents.com/ideas)**



**Cardiff University Students' Union
Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd**

FYFYRWYR CAERDYDD, MAE EICH UNDEB MYFYRWYR EICH ANGEN CHI!

Chi yw'r ysgogydd ar gyfer bob dim rydyn ni'n ei wneud ac rydyn ni eisiau sicrhau fod gennych chi lais. Dyna pam rydyn ni'n gofyn i chi i gysylltu â ni.

Gallwch wneud gwahaniaeth. Gallwch gynrychioli. I barhau i gynrychioli myfyrwyr eraill a gwneud gwahaniaeth drwy gael deialog agored gyda rhanddeiliaid allweddol, cymrwch ran yn yr Adolygiad Ehangu Ansawdd 2020.

Bydd cymryd rhan yn yr adolygiad nid yn unig o fudd i'r Brifysgol a chorff y myfyrwyr yn ehangach ond hefyd o fudd i chi â'ch CV.

Am fwy o wybodaeth, e-bostiwch: studentreps@caerdydd.ac.uk

Cysylltwch â'ch Swyddogion Sabothol!



Tomos

IL Addysg

✉ VPEducation@Caerdydd.ac.uk

f EducationCSU

🐦 @EducationCSU



Nick

IL Myfyrwyr Ôl-raddedig

✉ VPPostgraduate@Caerdydd.ac.uk

f PGradOfficerCSU

🐦 @PostgradCSU



Shekina

IL Parc y Mynydd Bychan

✉ VPHeathPark@Caerdydd.ac.uk

f VPHeathParkCSU

🐦 @HeathParkCSU